# Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Darpariaeth Gymraeg a dwyieithog ar gyfer dysgwyr 14-19 oed

Mai 2008




Iechyd ar Waith
Health at Work

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


**Cyflwyniad** **1**

**Cefndir** **2**

**Prif ganfyddiadau** **4**

**Argymhellion** **7**

**Cymwysterau ar gael yn Gymraeg** **8**

**Cyrsiau y mae darparwyr yn eu cynnig yn Gymraeg** **9**

**Dysgwyr sy'n dilyn eu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg** **12**

Niferoedd dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg 12

Niferoedd dysgwyr sy'n gwneud eu hasesiadau terfynol drwy gyfrwng y Gymraeg 13

**Cydweithio rhwng darparwyr i ehangu opsiynau Cymraeg** **15**

**Dylanwad y rhwydweithiau 14-19 yn ehangu'r opsiynau Cymraeg** **18**

**Y cynllun sabothol** **19**

**Hyrwyddwyr dwyieithrwydd mewn colegau addysg bellach** **21**

**Addysgu dwyieithog** **22**

**Atodiad:** Enwau darparwyr yr ymwelwyd â hwy

## Cyflwyniad

1 Diben yr adroddiad hwn yw darparu cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn ymateb i gais yng nghylch gorchwyl blynyddol Estyn. Testun y cyngor yw ystod ac ansawdd y ddarpariaeth Gymraeg i ddysgwyr 14-19 oed, gan gynnwys argaeledd a'r defnydd o gymwysterau cyfrwng Cymraeg.

2 Bwriedir yr adroddiad fel papur trafod yn hytrach nag adolygiad llawn. Mae'n nodi enghreifftiau o arfer dda a'r hyn sydd angen ei wneud i wireddu dyheadau Llwybrau Dysgu 14-19 mewn perthynas â darpariaeth Gymraeg a dwyieithog.

3 Mae'r adroddiad wedi ei seilio ar adolygiad o'r ddarpariaeth mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant yn y gwaith. Mae'r dystiolaeth yn deillio o:

- ymweliadau â sampl o ddarparwyr[1] yn y tri sector yn nhymor yr hydref 2007;
- adroddiadau Estyn ar ddarparwyr unigol a gafodd eu harolygu yn ystod 2005-2006 a 2006-2007;
- data yn gysylltiedig ag arolygiadau; a
- chynlluniau datblygu rhwydweithiau 14-19 lleol[2] ar gyfer 2007-2008.

[1] Mae rhestr o'r darparwyr yr ymwelwyd â hwy yn yr atodiad.
[2] Grŵp â chyfrifoldeb strategaethol yn cynrychioli darparwyr addysg a hyfforddiant yn ardal awdurdod lleol yw 'rhwydwaith 14-19'

## Cefndir

4 Amlinellwyd ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i drawsnewid darpariaeth ar gyfer dysgwyr 14-19 oed yng Nghymru yn y ddogfen bolisi '*Y Wlad sy'n Dysgu: gweithredu'r weledigaeth' (2006)*. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisiau gweld:

> *'95 y cant o bobl ifainc, erbyn eu bod yn 25 oed, yn barod ar gyfer cyflogaeth hyfedr….neu addysg uwch erbyn 2015.'*
>
> *Y Wlad sy'n Dysgu: gweithredu'r weledigaeth' (2006)* tud.13

5 Mae'r ddogfen hon hefyd yn nodi'r bwriad i:

> '*weithio gyda byrddau arholi i gynyddu ystod y cymwysterau, yn enwedig cymwysterau galwedigaethol, drwy gyfrwng y Gymraeg'*
>
> *Y Wlad sy'n Dysgu: gweithredu'r weledigaeth' (2006), tud. 12*

6 Mae *Iaith Pawb*[3] yn nodi'r angen am ystod lawn o gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cydnabod swyddogaeth hollbwysig addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn y broses o ddatblygu sgiliau dwyieithog cadarn ymhlith dysgwyr.

7 Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, mae '*Llwybrau Dysgu 14-19: arweiniad II'* yn galw am ddulliau mwy hyblyg a chytbwys o ddarparu addysg i ddysgwyr 14-19 oed, gydag ystod ehangach o brofiadau cwricwlaidd a fydd yn diwallu anghenion amrywiol pobl ifainc Cymru. O safbwynt darpariaeth Gymraeg, mae'r arweiniad hwn yn datgan[4]:

> *'Bydd Llwybrau Dysgu 14-19 yn cyfrannu at nodau Iaith Pawb drwy anelu at :*
>
> - *gynnig darpariaeth yn y dewis iaith lle bo'n bosib;*
> - *gosod pwyslais ar ddatblygu medrau dwyieithog pobl ifanc; a*
> - *rhoi'r medrau yn y Gymraeg a'r Saesneg i bobl ifainc a fydd yn eu galluogi i ddysgu a gweithio mewn cymdeithas ddwyieithog.'*

8 Mae'r ddogfen hon hefyd yn nodi y dylid sicrhau ystod o ddewisiadau cyffredinol a chymwysedig, o lefel mynediad i lefel 4 ar gyfer dysgwyr 14-19 oed, ac y bydd gofyn, yn arbennig, ystyried sut i gynyddu'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg oddi mewn i bob maes ymhob rhan o Gymru.

9 Mae canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y dyraniadau refeniw i'r rhwydweithiau 14-19 lleol yn 2008-2009 yn nodi bod swm ychwanegol o £1.2 miliwn wedi ei glustnodi ar gyfer datblygu darpariaeth alwedigaethol Gymraeg neu ddwyieithog. Bydd disgwyl i'r ceisiadau ganolbwyntio'n bennaf ar gyrsiau ar lefelau 2

[3] '*Iaith Pawb*' yw cynllun gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru ddwyieithog.
[4] *Llwybrau Dysgu 14-19: arweiniad II, (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006) tudalen 12*

a 3 ym meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru[5] neu flaenoriaethau lleol eraill. Dyrennir y cyllid hwn ar lefel ranbarthol yn hytrach nag i rwydweithiau unigol er mwyn hyrwyddo cydweithio ar draws rhwydweithiau. Bydd yn ofynnol i ddarpariaeth fydd yn cael ei hariannu gan y cyllid hwn arwain at asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, a bydd disgwyliad i'r rhanbarthau gysylltu â'r byrddau arholi i drafod a oes modd cwblhau asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

10 Cyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad annibynnol ar addysg bellach yng Nghymru '*Addewid a chyflawniad'*, (Adolygiad Webb) yn Rhagfyr 2007. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r anghenion canlynol mewn perthynas â darpariaeth gyfrwng Gymraeg ôl-14:

- hawliau dysgwyr o safbwynt darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog;
- darpariaeth sy'n cynnal diwylliant Cymru ac yn medru darparu ystod o wasanaethau ym meysydd addysg, iechyd a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- chyfleoedd gyrfa a chyflogaeth i bobl ifainc.

11 Yn 2006, cyhoeddodd Estyn yr adroddiad *'Cymwysterau cyfredol a menter Llwybrau Dysgu 14-19*' [6]. Yn yr adroddiad hwn, nodir bod y rhan fwyaf o gymwysterau TGAU a Safon Uwch ar gael yn Gymraeg yn ogystal ag yn y Saesneg. Hefyd, ers 1995, bu'n bosibl cwblhau rhai cymwysterau galwedigaethol yn gyfan gwbl yn Gymraeg neu yn ddwyieithog. Mae'r adroddiad yn nodi bod nifer y cymwysterau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg yn cynyddu. Fodd bynnag, daw'r adroddiad i'r casgliad cyffredinol mai cyfyng yw'r ystod o gyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg ac mai niferoedd bach o ddysgwyr sy'n eu dilyn.

---

[5] Chwe maes blaenoriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yw gofal plant a'r blynyddoedd cynnar; amaeth ac astudiaethau'r tir; twristiaeth a hamdden; gofal; gweinyddu busnes a thechnoleg gwybodaeth; ac astudiaethau'r cyfryngau a'r celfyddydau perfformio.

[6] Gellir dod o hyd i'r adroddiad hwn ar wefan Estyn: http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_Remit_17__14to19_Learning_pathways_2005_2006.pdf

## Prif ganfyddiadau

### Cymwysterau ar gael yn Gymraeg

12 Mae mwyafrif helaeth y cymwysterau cyffredinol ar gael yn y Gymraeg. Daeth tua 60 o gymwysterau cymwysedig neu alwedigaethol i fod ar gael o ganlyniad i gynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n darparu cymorth i fyrddau arholi i'w helpu i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, dim ond cyfran fach o gymwysterau galwedigaethol cyfrwng Saesneg sydd ar gael yn Gymraeg. Mae'r prinder arholwyr a gwirwyr sydd â'r arbenigedd i weithio yn Gymraeg yn rhwystr i ehangu ar nifer y cymwysterau cyfrwng Cymraeg.

### Cyrsiau y mae darparwyr yn eu cynnig yn Gymraeg

13 At ei gilydd, bu cynnydd o 13% rhwng 2003-2004 a 2004-2005 yn nifer y cyrsiau Cymraeg a dwyieithog a gynigir gan ddarparwyr ar draws Cymru. Yn ystod yr un cyfnod, bu cynnydd o 7% yn nifer y cyrsiau galwedigaethol yn chwe maes blaenoriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, er bod llawer o amrywiaeth rhwng meysydd blaenoriaeth unigol.

14 Mae amrywiaeth mawr rhwng awdurdodau yn nifer y cyrsiau cyfrwng Cymraeg y mae darparwyr yn eu cynnig, hyd yn oed rhwng awdurdodau sy'n gwasanaethu ardaloedd â chefndir ieithyddol tebyg. Yn gyffredinol, nid yw dysgwyr mewn sawl rhan o Gymru yn cael digon o gyfleoedd i barhau i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl gadael yr ysgol.

15 Yn aml, nid oes gan ddarparwyr a dysgwyr wybodaeth gyflawn am y cymwysterau sydd ar gael yn Gymraeg neu'r galw amdanynt gan gyflogwyr.

16 Mae diffyg gwybodaeth gyflawn am ystod y cyrsiau cyfrwng Cymraeg a gynigir, ynghyd â niferoedd dysgwyr, yn ei gwneud hi'n anodd cael darlun o'r sefyllfa bresennol a phennu targedau lleol a chenedlaethol.

17 Mae nifer cynyddol o ysgolion uwchradd, colegau a darparwyr hyfforddiant yn hyrwyddo dwyieithrwydd a chynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr ddod i gysylltiad â'r Gymraeg a gwella eu medrau dwyieithog. Fodd bynnag, mae diffygion yn y ddarpariaeth ar gyfer dwyieithrwydd mewn bron i hanner ysgolion uwchradd a thros hanner darparwyr hyfforddiant a arolygwyd yn 2005-2006 a 2006-2007. O'r wyth coleg addysg y buom yn eu harolygu yn ystod y cyfnod hwn, mae'r cyfan bron yn gwneud cynnydd da, mewn rhai achosion o fan cychwyn isel, yn hyrwyddo dwyieithrwydd.

### Dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg

18 Yn 2004-2005, roedd 10% o weithgareddau dysgu chweched dosbarth mewn ysgolion uwchradd yn y Gymraeg a 7% pellach yn ddwyieithog. Mae'r ffigurau hyn yn gynnydd arwyddocaol ar ffigyrau 2003-2004. Mewn cyferbyniad, 2% yn unig o weithgareddau dysgu mewn addysg bellach a darparwyr hyfforddiant gyda'i gilydd oedd yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn 2004-2005. Mewn addysg bellach, mae'r gyfran o weithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg yn unig yn llai na 0.5%.

19 Rhwng 2004 a 2006, roedd patrwm o gynnydd bras yn nifer yr ymgeiswyr ar gyfer arholiadau cyfrwng Cymraeg TGAU, lefel mynediad , safon uwch ac uwch atodol. Fodd bynnag, roedd amrywiaeth mawr yn 2006 yn y gyfran o ymgeiswyr Cymraeg rhwng awdurdodau lle'r canrannau uchaf o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Mewn rhai darparwyr, mae niferoedd arwyddocaol o ddysgwyr yn dilyn eu cyrsiau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog ond yn gwneud yr asesiadau terfynol yn Saesneg.

20 Er bod ystod yr adnoddau cyfrwng Cymraeg yn gwella, mae prinder deunyddiau fel gwerslyfrau yn rhwystr i gynyddu niferoedd dysgwyr sy'n dewis dilyn eu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn aml, nid yw darparwyr yn gwybod am yr hyn sydd ar gael nac ymhle y mae dod o hyd iddo.

### Cydweithio rhwng darparwyr i ehangu opsiynau cyfrwng Cymraeg

21 Mae cydweithio mwy helaeth rhwng darparwyr yn arwain at gyflwyno cyrsiau newydd, yn enwedig mewn meysydd galwedigaethol. Yn gyffredinol, araf yw'r cynnydd yn datblygu darpariaeth sy'n ddibynnol ar gydweithio rhwng addysg bellach, darparwyr hyfforddiant ac ysgolion. Eto i gyd, mae cydweithio gwell rhwng ysgolion a mwy o gynnydd.

22 Lle mae niferoedd dysgwyr yn fach, rhy ychydig yw'r ystyriaeth sydd wedi ei rhoi i gyflogi athrawon teithiol neu ddefnyddio cyswllt fidio er mwyn rhoi gwell cyfleodd Cymraeg neu ddwyieithog i ddysgwyr, yn enwedig lle mae pellter rhwng darparwyr.

### Dylanwad y rhwydweithiau 14–19 yn ehangu'r opsiynau cyfrwng Cymraeg

23 Mewn nifer o achosion, mae rhwydweithiau 14-19 wedi helpu darparwyr i gyflwyno cyrsiau cyfrwng Cymraeg newydd, yn enwedig mewn meysydd galwedigaethol. Eto i gyd, mae diffygion o ran cynllunio strategaethol o ran cynnal awdit a nodi bylchau yn y ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg. Roedd llawer o gynlluniau datblygu'r rhwydweithiau 14-19 lleol yn brin o ddisgwyliad Llywodraeth Cynulliad Cymru bod ceisiadau 2007-2008 yn dyrannu o leiaf 10% y cant o'u cyllid i ehangu ar y ddarpariaeth Gymraeg.

### Y cynllun sabothol[7]

24 Mae'r 'cynllun sabothol' wedi dechrau cynyddu niferoedd yr athrawon a darlithwyr sy'n medru'r Gymraeg ac yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Fodd bynnag, mae niferoedd y darlithwyr addysg bellach sy'n manteisio ar y cynllun yn llawer is na'r hyn a ragwelwyd adeg cyflwyno'r cynllun.

### Hyrwyddwyr dwyieithrwydd mewn colegau addysg bellach

25 Mae'r hyrwyddwyr dwyieithrwydd yn gweithio'n dda i ddatblygu gallu colegau i ehangu ar eu darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog drwy nodi a diwallu anghenion hyfforddiant staff.

---

[7] Rhaglen wedi ei noddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw'r 'cynllun sabothol', ar gyfer cynyddu'r niferoedd athrawon a darlithwyr cymwysedig sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cynigir y cynllun yn rhad ac am ddim ac ad-delir costau cyflenwi a theithio. Cynhaliwyd y cwrs cyntaf yng ngwanwyn 2006. Erbyn hyn, mae'r cynllun wedi ei estyn hyd 2009.

## Addysgu dwyieithog

26 Mae nifer cynyddol o ddarparwyr yn cyflwyno addysgu dwyieithog fel modd o ehangu ar yr hyn y gallant ei gynnig yn Gymraeg, o leiaf yn rhannol. Mae addysgu dwyieithog effeithiol yn her fawr ac, yn gyffredinol, mae gormod o amrywiaeth yn yr ansawdd.

## Argymhellion

27 Er mwyn ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 14–19 sy'n dymuno dilyn eu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg

**dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

A1 gasglu data am y sefyllfa bresennol a phennu targedau i rwydweithiau 14-19 i gynyddu darpariaeth gyfrwng Cymraeg a monitro cynnydd yn erbyn y targedau hynny;

A2 hyrwyddo adnoddau ar-lein newydd a chodi ymwybyddiaeth darparwyr o'r hyn sydd ar gael;

A3 sicrhau bod y cynllun sabothol yn diwallu anghenion athrawon a'u cyflogwyr drwy ehangu'r cynllun i gwmpasu ystod ehangach o hyfedredd yn y Gymraeg; a

A4 pharhau i gynyddu nifer y cymwysterau cyfrwng Cymraeg;

**dylai'r rhwydweithiau 14-19:**

A5 nodi bylchau a diffygion yn y ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg ar draws darparwyr a phennu targedau ar gyfer eu diddymu;

A6 cynnal awdit o fedrau ieithyddol staff lleol a phennu targedau ar gyfer cynyddu'r niferoedd sy'n addysgu yn Gymraeg ac annog mwy i fanteisio ar y cynllun sabothol; a

A7 hysbysu darparwyr a dysgwyr am y cymwysterau Cymraeg sydd ar gael a'r galw amdanynt gan gyflogwyr; a

**dylai darparwyr:**

A8 farchnata eu cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn fwy gweithredol;

A9 dadansoddi cost-effeithlonrwydd cyrsiau a chydweithio mwy i ddarparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg ar y cyd gyda darparwyr eraill lle mae niferoedd dysgwyr yn fach, er enghraifft drwy ehangu ar y defnydd o athrawon teithiol;

A10 cynyddu'r gynhaliaeth i ddysgwyr sy'n dilyn cyrsiau dysgu o bell drwy gyswllt fidio neu e-ddysgu;

A11 cynyddu nifer y cyrsiau cyfrwng Cymraeg a gynigir i ddysgwyr, yn enwedig yn chwe maes blaenoriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru; a

A12 gwella ansawdd addysgu dwyieithog fel bod dysgwyr yn medru cyfranogi mewn ystod lawn o weithgareddau dysgu yn Gymraeg mewn dosbarthiadau dwyieithog.

## Cymwysterau ar gael yn Gymraeg [8]

28 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd yn casglu gwybodaeth gan y byrddau arholi am y cymwysterau sydd ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

29 Mae mwyafrif helaeth y pynciau cyffredinol TGAU, Safon Uwch ac Uwch Atodol sy'n cael eu darparu gan y bwrdd arholi CBAC ar gael yn y Gymraeg. Mae bwrdd arholi CBAC wedi bod yn flaengar o ran darparu cyrsiau hyfforddiant mewn swydd ac adnoddau i athrawon sy'n addysgu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

30 Sefydlwyd Fforwm Cyrff Dyfarnu Cyfrwng Cymraeg yn 2004 er mwyn cynyddu'r cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael yn y Gymraeg. Erbyn hyn mae'r pumed cylch ariannu ar waith, a bydd cyfanswm o tua 60 o gymwysterau galwedigaethol ychwanegol ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn sgil y cymorth i'r saith corff dyfarnu sy'n rhan o'r cynllun. Er hynny, cyfran fach iawn yw hyn o'r cyfanswm o gymwysterau galwedigaethol sydd ar gael yn y Saesneg. Er enghraifft, nid oes cymwysterau Cymraeg ar gael mewn meysydd lle mae elfen gref o wasanaeth, megis gofal cwsmer, iechyd a diogelwch, cyfiawnder, ynghyd â meysydd fel trin a gwerthu ceir, a chludiant. Nid oes disgwyliad i gorff dyfarnu sicrhau bod cymhwyster newydd a gyflwynir yng Nghymru ar gael yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Fodd bynnag, mae nifer o anawsterau ymarferol i gyflwyno hyn fel disgwyliad.

31 Mae prinder arholwyr a dilyswyr sydd ag arbenigedd i weithio yn y Gymraeg yn faen tramgwydd i gynyddu nifer y cymwysterau Cyfrwng Cymraeg. Gall costau datblygu a chynnal darpariaeth gyfrwng Cymraeg fod yn uchel oherwydd niferoedd bach o ymgeiswyr. Nid yw darparwyr bob amser yn ymwybodol o'r cymwysterau sydd ar gael ar hyn o bryd yn Gymraeg. Mae hefyd ddiffyg gwybodaeth i ddarparwyr a dysgwyr am y galw am gymwysterau penodol o du cyflogwyr.

[8] Mae'r ffigurau a ddyfynnir yn yr adran hon yn deillio o'r crynodebau ystadegol canlynol a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru: '*Ystadegau dwyieithrwydd ar gyfer y sector dysgu ôl-16 yng Nghymru*'; '*SDR 53/2007: Addysg Bellach, Dysgu yn y gwaith a Dysgu yn y Gymuned yng Nghymru 2005/06*'; a '*Dadansoddiad rhwydweithiau dysgu 2005-06*'.

## Cyrsiau y mae darparwyr yn eu cynnig yn Gymraeg

32 Mae cyhoeddiadau fel '*Ystadegau dwyieithrwydd ar gyfer y sector dysgu ôl - 16 yng Nghymru'  gan L*ywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu gwybodaeth waelodol ddefnyddiol am niferoedd gweithgareddau yn nosbarthiadau chwech ysgolion, addysg bellach a darparwyr hyfforddiant yn y gwaith.  Fodd bynnag, mae'n anodd cael darlun cyflawn o ystod y cyrsiau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog sy'n cael eu cynnig i ddysgwyr, ynghyd â'r niferoedd sy'n eu dilyn, ar draws yr ystod oed 14– 9, naill ai yn lleol neu yn genedlaethol.  Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd cael darlun o'r sefyllfa bresennol a phennu targedau lleol a chenedlaethol.

33 O 2003-2004 i 2004-2005, bu cynnydd o 13%, o 626 i 705,  yn y cyfanswm cyrsiau ar draws darparwyr Cymru lle gall dysgwyr ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.  Yn awdurdodau Gwynedd a Môn y bu'r cynnydd mwyaf, lle bu cynnydd yn y niferoedd cyrsiau o dros 50% yn 2004-2005.  Bu cynnydd arwyddocaol hefyd yn Rhondda Cynon Taf, ond gostyngiad yn awdurdodau Caerfyrddin a Phowys. Yn 2004-05, nid oedd cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn awdurdodau Merthyr, y Fro a Chasnewydd, a chyfanswm o lai na 10 o gyrsiau Cymraeg ym Mlaenau Gwent, Sir Fynwy a Phen-y-bont.  Ym Merthyr Tudful, er bod addysg uwchradd Gymraeg yn cael ei darparu mewn awdurdod cyfagos, mae'r ffaith nad oes unrhyw gyrsiau Cymraeg 14-19 yn golygu diffyg dilyniant a pharhad mewn darpariaeth Gymraeg i'r dysgwyr sy'n dychwelyd i'w hardal leol ar gyfer addysg bellach neu hyfforddiant yn y gwaith.


34 Mae amrywiaeth mawr yn yr hyn sy'n cael ei gynnig gan ddarparwyr, hyd yn oed rhwng mewn awdurdodau sy'n gwasanaethu ardaloedd o natur ieithyddol debyg. Er enghraifft, yn 2004-2005 roedd 87 o gyrsiau Cymraeg yn cael eu darparu yn Sir Gaerfyrddin o'i gymharu â 62 yng Ngheredigion.  Yn 2004-2005, roedd mwy o bynciau ar gael yn Gymraeg yn Sir y Fflint nag yng Nghonwy a Sir Ddinbych lle mae mwy o siaradwyr Cymraeg.  Mae amrywiadau fel hyn yn golygu diffyg cyfle cyfartal i ddysgwyr sydd wedi derbyn eu haddysg flaenorol drwy gyfrwng y Gymraeg.

35 Rhwng 2003-2004 a 2004-2005 roedd cynnydd sylweddol yn nifer y sefydliadau oedd yn darparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn pynciau fel dylunio a thechnoleg, drama, mathemateg bellach, seicoleg, cymdeithaseg a seicoleg wedi.  Mae llawer llai o ddarparwyr yn cynnig cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn mathemateg a gwyddoniaeth nag mewn pynciau fel cerddoriaeth, hanes a daearyddiaeth.  Yn 2004-2005, nifer bach o ddarparwyr (12 neu lai) oedd yn cynnig darpariaeth gyfrwng Gymraeg mewn rhai meysydd lle mae'r galw am fedrau dwyieithog yn debygol o fod yn uwch, fel technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, economeg, gwyddor y cartref ac astudiaethau'r cyfryngau.

36 Rhwng 2003-2004 a 2004-2005 bu cynnydd o 334 i 359 (7%) o gyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg yn chwe maes blaenoriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.  Fodd bynnag, mae amrywiaeth rhwng meysydd unigol.  Ym maes gofal a'r blynyddoedd cynnar, bu cynnydd o tua 40% yn y cyfanswm cyrsiau yn y cyfnod hwn, ac roedd cynnydd bach mewn gweinyddu busnes ac mewn twristiaeth a hamdden. Ar y llaw arall, bu gostyngiad o tua 15% yn ystod y cyfnod hwn mewn TGCh, a gostyngiad llai yn y  cyfryngau a'r celfyddydau perfformio, ac mewn amaethyddiaeth. Dim ond 13 o gyrsiau Cymraeg oedd yn y cyfryngau a'r celfyddydau perfformio yn 2004-2005.

37 Mewn ysgolion lle mae ffrydiau cyfrwng Cymraeg a Saesneg, mae'r cyfleoedd i barhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn prinhau yng nghyfnod allweddol 4, ac yn prinhau ymhellach yn y chweched dosbarth. Mae hyn oherwydd prinder athrawon sy'n hyderus i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu ddim digon o ddysgwyr i greu dosbarthiadau hyfyw. Yn yr amgylchiadau hyn, nid oes ystyriaeth ddigonol wedi ei rhoi i oresgyn yr anawsterau hyn, drwy weithio mewn partneriaeth â darparwyr eraill neu addysgu'n ddwyieithog.

38 Wrth arolygu darparwyr unigol fel rhan o'r cylch chwe blynedd o arolygiadau, rydym yn dyfarnu graddau i ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo dwyieithrwydd dysgwyr. Mae'r siart dilynol yn dangos y graddau a roddwyd i'r darparwyr yn y tri sector yn ystod 2005-2006 a 2006-2007:




39 Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar ddarparwyr yn y sectorau cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ac yn ystyried yr hyn sy'n rhesymol ei ddisgwyl ar sail natur ieithyddol darparwyr a'r ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu. Mae nifer cynyddol o ddarparwyr yn rhoi mwy o sylw nag o'r blaen i hyrwyddo dwyieithrwydd dysgwyr. Fodd bynnag, mae'r siart yn dangos bod diffygion yn y ddarpariaeth ar gyfer dwyieithrwydd mewn bron i hanner ysgolion uwchradd a thros hanner darparwyr hyfforddiant.

40 Mae'r darlun mewn addysg bellach yn y siart uchod yn seiliedig ar yr wyth darparwr y gwnaethom eu harolygu yn ystod y cyfnod hwn. Mae mwy o golegau nag a fu wedi dechrau hyrwyddo ethos gyffredinol sy'n adlewyrchu Cymru fel gwlad ddwyieithog, er enghraifft drwy arwyddion a hysbysiadau dwyieithog. Mae nifer bach o golegau addysg bellach wedi gwneud ymdrechion sylweddol i wella eu darpariaeth ar gyfer dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae eraill yn cymryd camau cychwynnol at ddarparu ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg. Eto i gyd, yn gyffredinol, nid yw dysgwyr yn y rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru yn cael digon o gyfleoedd wedi gadael yr ysgol i barhau â'u dysgu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mewn rhai achosion lle mae darpariaeth ar gael, nid yw darparwyr yn aml yn gwneud digon i ddangos i ddysgwyr y manteision o ddilyn cyrsiau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

41 Wrth i gwricwlwm darparwyr ehangu i gynnig gwell dewis o gyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr, mae cost darparu yn cynyddu. Y prif reswm am hynny yw niferoedd bach o ddysgwyr yn dilyn cyrsiau. Mae llawer o'r cyrsiau galwedigaethol newydd sydd wedi eu cyflwyno yn ddiweddar yn ddibynnol ar gyllid wedi ei dderbyn drwy'r rhwydweithiau lleol. Cyllid tymor byr yw hwn ac mae llawer o ansicrwydd ynglŷn â chynaliadwyedd cyrsiau wedi hynny. Nid yw llawer o ddarparwyr, yn enwedig ysgolion, yn gwneud digon i archwilio cost-effeithlonrwydd ac ystyried dulliau darparu eraill lle mae costau darparu cwrs yn uchel.


42 Mae rhaglen gomisiynu Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu deunyddiau ar gyfer meysydd galwedigaethol wedi gwella'r sefyllfa o ran deunyddiau Cymraeg. Mae Canolfan Sgiliaith a mentrau fel y Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Dysgu (NGfL-Cymru), prosiect Rhannu (Dysg/Llywodraeth Cynulliad Cymru) ynghyd â darpariaethau lleol fel canolfan e-ddysgu Gwynedd a Môn, yn cyfrannu llawer o ran cynyddu a rhannu'r adnoddau dysgu Cymraeg sydd ar gael i ddarparwyr. Fodd bynnag, mae dysgwyr a staff darparwyr ôl - 16 yn parhau i nodi prinder adnoddau dysgu Cymraeg ar gyfer cyrsiau galwedigaethol yn un o'r rhwystrau i gynyddu'r niferoedd dysgwyr sy'n dewis dilyn eu cyrsiau drwy'r Gymraeg. Yn aml, nid yw darparwyr yn gwybod am ystod yr hyn sydd ar gael yn Gymraeg nac ymhle i ddod o hyd iddo.

## Dysgwyr sy'n dilyn eu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg[9]

### Niferoedd dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg

43 Yn 2004-2005, roedd 10% o weithgareddau dysgu[10] trwy gyfrwng y Gymraeg yn y chweched dosbarth mewn ysgolion uwchradd a 7% yn ddwyieithog. Mae'r ffigurau hyn yn gynnydd arwyddocaol ar ffigyrau 2003-04. Bu peth cynnydd yn y cyfnod hwn yn y sector hyfforddiant yn y gwaith. Fodd bynnag, yn 2004-2005, 2% yn unig o weithgareddau dysgu yn y sectorau addysg bellach a dysgu yn y gwaith gyda'i gilydd oedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Yn 2005-2006, roedd 4% o weithgareddau dysgu yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog mewn colegau addysg bellach, sy'n gynnydd arwyddocaol ar flynyddoedd blaenorol. Mae'r canran o weithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg yn unig yn parhau'n llai na 0.5% mewn addysg bellach.


44 Yn 2005-06, roedd nifer y gweithgareddau dysgu ar gyrsiau galwedigaethol ar draws Cymru yn amrywio'n fawr rhwng chwe maes blaenoriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru:




[9] Mae'r ystadegau a ddyfynnir yn yr adran hon yn deillio o grynodeb ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Ystadegau dwyieithrwydd ar gyfer y sector ôl-16 yng Nghymru' a data a ddarparwyd gan Gronfa Ddata Addysg Cymru (WED) Cydbwyllgor Addysg Cymru (CBAC)
[10] Mae nifer y 'gweithgareddau dysgu' yn golygu cyfanswm nifer y cyrsiau y mae darparwyr yn eu cynnig wedi ei luosi â nifer y dysgwyr sy'n eu dilyn.

## Niferoedd dysgwyr sy'n gwneud eu hasesiadau terfynol drwy gyfrwng y Gymraeg

45 Rhwng 2004 a 2006, bu patrwm bras o gynnydd yn y niferoedd ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg ar gyfer arholiadau allanol TGAU, Lefel mynediad, Safon Uwch ac Uwch Atodol. Er bod bron y cyfan o ffigurau 2006 ychydig yn is na rhai 2005, maent yn uwch na ffigurau 2004:




46 Dengys y siart i'r ganran o ymgeiswyr TGAU cyfrwng Cymraeg godi o 9.69% yn 2004 i 10.03% yn 2006. Adlewyrchir hyn yn y ffigwr ar gyfer y cyrsiau byr cyfrwng Cymraeg TGAU. Wedi dweud hynny, mae'r ffigurau ar gyfer ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg yn 2006 hyn yn parhau'n is na'r disgwyl o ystyried bod 15.4% o ddisgyblion uwchradd 11-16 oed wedi dilyn rhaglen astudio Cymraeg Iaith gyntaf yn 2006. Roedd canran ymgeiswyr arholiadau lefel mynediad cyfrwng Cymraeg hefyd yn uwch yn 2006 nag yn 2004. Cododd canran ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg ar gyfer arholiadau Safon Uwch ac Uwch Atodol o 8.86% yn 2004 i 9.14% yn 2006.

47 Mae'r tabl canlynol yn dangos yr asesiadau cyfrwng Cymraeg yn 2006 mewn chwe awdurdod. Dyma'r awdurdodau lle mae'r canrannau uchaf o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2001.

| | **Canran y boblogaeth dros 3 oed sy'n siarad Cymraeg** | **Canran y bobl ifanc 15 oed sy'n siarad Cymraeg** | **Canran ymgeiswyr arholiad TGAU Cymraeg iaith gyntaf yn 2006** [11] [12] | **Canran holl asesiadau terfynol cyfrwng Cymraeg yn 2006**[13] |
|---|---|---|---|---|
| **Môn** | 60.1 | 80.0 | 69 | 28 |
| **Gwynedd** | 69.0 | 90.2 | 80 | 52 |
| **Conwy** | 29.4 | 51.2 | 18 | 12 |
| **Sir Ddinbych** | 26.4 | 45.5 | 25 | 12 |
| **Ceredigion** | 52.0 | 81.9 | 59 | 15 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 50.3 | 61.0 | 30 | 18 |
| **Cymru** | 20.8 | 42.8 | | |

*Ffynhonnell: ffigurau cyfrifiad 2001 ac ystadegau CBAC*

48 Rhaid bod yn ofalus â'r ffigurau yn yr ail golofn, gan nad yw'r categori o anghenraid yn cynrychioli'r niferoedd o bobl ifainc 15 oed a allai ddygymod â gofynion ieithyddol

[11] Fel canran o'r holl ddisgyblion a safodd arholiad TGAU naill ai mewn Cymraeg iaith gyntaf neu Gymraeg ail iaith
[12] Ffigurau wedi eu talgrynnu yw'r rhain.
[13] Ffigurau wedi eu talgrynnu yw'r rhain.

dilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'n rhesymol disgwyl bod gwell cyfatebiaeth rhwng y ffigurau yn y ddwy golofn olaf. Ar sail hynny, mae llawer o amrywiaeth rhwng awdurdodau yn y canrannau o asesiadau cyfrwng Cymraeg, hyd yn oed rhwng awdurdodau lle mae canrannau tebyg o ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad TGAU Cymraeg iaith gyntaf. Mae ffigurau Môn a Sir Ddinbych, ac yn enwedig Ceredigion, yn isel. Yn 2006, roedd ffigurau awdurdodau gweddill Cymru yn is na 10%, ac eithrio Rhondda Cynon Taf (18%) a Wrecsam (14%).

49 Mae'r amrywiaeth yn niferoedd ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg hefyd yn bodoli o edrych ar bynciau unigol. Dyma'r ffigurau ar gyfer detholiad o bynciau TGAU yn yr un chwe awdurdod yn 2006:

| | Daear | Hanes | Ast. cref. | TGCh | Ast. bus | Math | Gwydd. ddwbl |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Môn** | 28 | 35 | 46 | 0.4 | 17 | 39 | 36 |
| **Gwynedd** | 65 | 85 | 89 | 58 | 53 | 66 | 65 |
| **Conwy** | 12 | 13 | 40 | 0 | 16 | 13 | 12 |
| **Sir Ddinbych** | 15 | 15 | 9 | 18 | 14 | 12 | 12 |
| **Ceredigion** | 39 | 35 | 43 | 14 | 25 | 10 | 22 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 18 | 20 | 17 | 16 | 24 | 11 | 6 |

*Ffynhonnell: ystadegau CBAC*

50 Mae'r siart yn dangos bod llawer o amrywiaeth yn y ganran o ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg mewn pynciau unigol ar draws awdurdodau a hefyd rhwng pynciau oddi mewn i'r un awdurdod. Yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin, mae'r ffigurau ar gyfer y pynciau craidd mathemateg a gwyddoniaeth yn llawer is nag mewn hanes, daearyddiaeth ac astudiaethau crefyddol. Mae ffigurau TGCh yn isel iawn ym Môn a Chonwy, ac mewn gwyddoniaeth ddwbl yn Sir Gaerfyrddin.

51 Mewn rhai achosion, mae lefelau isel o ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg o ganlyniad i ddysgwyr yn dilyn eu cwrs drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog, ond yn gwneud yr asesiad terfynol yn Saesneg. Lle mae gan ddarparwyr bolisïau a disgwyliadau clir, mae dysgwyr sy'n dilyn y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd yn cael eu hasesu yn Gymraeg. Y mae hyn yn enwedig yn yr ysgolion uwchradd dynodedig Gymraeg yn ne-ddwyrain Cymru. Yn aml mewn ysgolion lle mae darpariaeth wedi ei seilio ar ffrydiau Cymraeg a Saesneg, mae llawer o ddysgwyr sy'n dilyn eu cwrs drwy'r Gymraeg nid yn unig yn gwneud yr asesiad terfynol yn Saesneg, ond hefyd yn cwblhau tasgau ysgrifenedig fel rhan o'u cwrs drwy'r Saesneg. Mae hyn yn aml gan mai'r dysgwyr eu hunain sy'n dewis cyfrwng y cofnodi a'r asesiadau terfynol.

52 Gall y ffaith fod dysgwyr yn newid i'r Saesneg yn eu gwaith ysgrifenedig ac yn yr asesiadau terfynol olygu nad yw dysgwyr yn cyflawni hyd eithaf eu gallu o ran gwybodaeth a dealltwriaeth bynciol. Mae hyn gan fod cyfrwng y cofnodi a'r ysgrifennu yn wahanol i brif gyfrwng yr addysgu. Gall hyn hefyd arwain at ddiffyg hyder mewn cyd-destunau Cymraeg, yn enwedig mewn meysydd galwedigaethol, gan nad yw dysgwyr yn cael y cyfle i ddatblygu ystod lawn o fedrau cyfathrebu yn Gymraeg.

## Cydweithio rhwng darparwyr i ehangu opsiynau Cymraeg

53 Mae cydweithio rhwng darparwyr yn allweddol o ran ehangu'r ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg mewn modd cost-effeithiol. Mae hyn yn enwedig yn y sector Gymraeg ymhlith darparwyr sy'n gwasanaethu ardaloedd lle mae'r boblogaeth yn wasgaredig a phellter teithio rhwng darparwyr.

54 Y mae darparwyr yn gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd drwy un neu gyfuniad o'r dulliau canlynol:

- trefnu i ddysgwyr deithio i ddosbarthiadau mewn darparwr arall;
- cyflogi athrawon teithiol;
- defnyddio cyfarpar fideo-gynadledda; a
- defnyddio adnoddau dysgu ar-lein.

55 Mae mwy a mwy o enghreifftiau o gydweithio helaeth rhwng darparwyr, yn enwedig rhwng ysgolion uwchradd, er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg, yn enwedig mewn meysydd galwedigaethol, fel y disgrifir yn yr astudiaeth achos ddilynol.

**Astudiaeth achos 1**

**Cyd-destun**

Mae '*Partneriaeth 6*' yn fenter ar y cyd rhwng dwy ysgol uwchradd mewn awdurdodau cyfagos yn ne-ddwyrain Cymru, sef Ysgol Gwynllyw ym Mhont-y-pŵl ac Ysgol Cwm Rhymni ym Margoed.

**Strategaeth a gweithredu**

Pwrpas y fenter hon yw ehangu ar y cwricwlwm galwedigaethol y mae'r ddwy ysgol yn ei gynnig yn y chweched dosbarth. Mae hon yn enghraifft dda o bartneriaeth hyblyg rhwng ysgolion, yn ddibynnol ar gyfuniad o ddulliau darparu sy'n cynnwys defnyddio athrawon teithiol, fidio-gynadledda a myfyrwyr yn teithio i'r ysgol arall. Nodwedd arbennig o'r gynhaliaeth i ddysgwyr yw presenoldeb tiwtor o ysgol arferol y dysgwyr mewn gwersi fidio-gynhadledd. Mae'r ysgolion wedi hyfforddi aelodau o'u staff eu hunain i weithredu fel dilyswyr mewnol ac allanol ar gyfer cyrsiau BTEC oherwydd anhawster y corff dyfarnu i gael gafael ar ddilyswyr sy'n medru gweithio drwy'r Gymraeg.

**Deilliannau**

Mae'r ysgolion yn medru cynnig nifer cynyddol o gyrsiau, yn enwedig mewn meysydd galwedigaethol, gyda chostau darparu llai a gwell effeithlonrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys cwrs cynorthwywyr dysgu CGC (NVQ), cyrsiau BTEC mewn twristiaeth a theithio, astudiaethau iechyd, busnes, adeiladwaith a lletygarwch, a'r gyfraith i Safon Uwch ac Uwch Atodol.

56 Yn aml, nid yw dysgwyr yn hoffi teithio at ddarparwr arall er mwyn dilyn cwrs, ac mae hyn yn medru cael effaith andwyol ar eu hymroddiad a'u cymhelliant. Erbyn Medi 2007, roedd 29 ysgol uwchradd wedi derbyn cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella safon cyfarpar fidio-gynadledda. Mae hyn wedi eu galluogi i gyflwyno mwy o opsiynau mewn partneriaeth â darparwyr eraill. Eto, mae rhai anawsterau yn gysylltiedig â'r modd hwn o ddarparu. Mewn rhai achosion, mae'r dyraniad amser yn llai na'r pedair i bum awr yr wythnos arferol ar gyfer cyrsiau Safon Uwch, gyda dysgwyr yn derbyn cyn lleied ag un sesiwn awr yr wythnos drwy fidio-gynhadledd heb unrhyw gynhaliaeth ychwanegol. Mae tystiolaeth i awgrymu bod hyn yn medru cael effaith negyddol fawr ar ganlyniadau arholiadau terfynol yn y pwnc.

57 Mae elfen gref o gystadleuaeth rhwng darparwyr gwahanol sectorau yn bodoli mewn llawer o ardaloedd, gyda hyn yn amharu ar ystod y dewisiadau a gynigir i ddysgwyr. Eto i gyd, mae rhai enghreifftiau blaengar lle mae'r ffiniau traddodiadol rhwng sectorau yn cael eu croesi, fel y mae'r enghreifftiau canlynol yn ei ddangos.

**Astudiaeth achos 2**

Mae Coleg Menai yn cynnig cyrsiau galwedigaethol rhan-amser i tua 400 o Ddysgwyr 14-16 oed o ysgolion Arfon a Môn.

Mae Coleg Sir Gâr yn cyfeirio dysgwyr sy'n dewis dilyn cyrsiau Safon Uwch ac Uwch Atodol Cymraeg iaith gyntaf i Ysgol y Strade, yn hytrach na chynnig y cwrs yn y coleg mewn cystadleuaeth.

Mae Coleg Glan Hafren ac ysgolion Glantaf a Phlasmawr yn cydweithio ar gyfer darparu cwrs BTEC mewn technoleg cerdd. Mae'r ddwy ysgol yn darparu'r agweddau theori drwy gyfrwng y Gymraeg a'r coleg yn gyfrifol am y gwaith ymarferol drwy'r Saesneg.

Mae ysgolion Syr Huw Owen a Dyffryn Nantlle yng Ngwynedd yn cydweithio â Hyfforddiant Gwynedd i gynnig cwrs CGC lefel 1 mewn sgiliau adeiladu.

58 Yn gyffredinol, araf yw'r cynnydd o ran datblygu darpariaeth newydd sy'n ddibynnol ar gydweithio rhwng y sectorau addysg bellach, hyfforddiant ac ysgolion. Mae'n anodd i rai ysgolion ehangu ar eu darpariaeth, yn enwedig mewn meysydd galwedigaethol, heb weithio ar y cyd â darparwyr yn y sectorau hyn. Yn aml, mae prinder darpariaeth gyfrwng Cymraeg mewn colegau addysg bellach a chwmnïau hyfforddiant yn faen tramgwydd i gynnig arlwy ehangach i ddysgwyr yn y sector Gymraeg. Rhwystr arall mewn perthynas â dysgwyr 14-16 oed yw nad yw colegau yn medru hawlio dyraniad ariannol am ddysgwyr o'r oed hwn, ac mae'r gost i ysgolion yn sefyllfaoedd hyn yn uwch o ganlyniad.

59 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn disgrifio menter flaengar rhwng dwy ysgol uwchradd yn ne-ddwyrain Cymru:

**Astudiaeth achos 3**

**Cyd-destun**

Y ddwy ysgol yw ysgol ddynodedig Gymraeg, Ysgol Gwynllyw, ac ysgol gyfrwng Saesneg gyfagos, Ysgol Uwchradd Babyddol St. Alban's, y ddwy ym Mhont-y-pŵl.

**Strategaeth**

Nod y fenter hon yw cynyddu cyfleodd i ddisgyblion yr ysgol Saesneg sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith i ddod i gyswllt â'r Gymraeg y tu hwnt i'w gwersi Cymraeg.

**Gweithredu**

Mae myfyrwyr yr ysgol Saesneg sy'n astudio Cymraeg ail iaith yn y chweched dosbarth yn ymweld â'r theatr gyda myfyrwyr chweched dosbarth yr ysgol Gymraeg. Hefyd mae grwpiau o ryw 20 - 30 myfyriwr chweched o'r ddwy ysgol yn ymweld ag ysgolion ei gilydd er mwyn cymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Deilliannau**

Mae'r cynllun arloesol hwn yn:

- gwella gallu myfyrwyr yr ysgol Saesneg i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ystod o sefyllfaoedd;
- yn codi eu hymwybyddiaeth fod y Gymraeg yn iaith fyw sy'n gyfrwng cyfathrebu bob dydd; ac
- yn cryfhau'r ymwybyddiaeth o Gymreictod ymhlith myfyrwyr yr ysgol Gymraeg.

## Dylanwad y rhwydweithiau 14-19 yn ehangu'r opsiynau Cymraeg

60 Mewn nifer o achosion, mae'r rhwydweithiau wedi helpu darparwyr i gyflwyno cyrsiau cyfrwng Cymraeg newydd, yn enwedig mewn meysydd galwedigaethol. O ganlyniad, mewn nifer o ardaloedd, mae gan ddysgwyr well dewis nag o'r blaen o ran ystod y cyrsiau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

61 Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau datblygu'r rhwydweithiau lleol yn rhoi o leiaf beth sylw i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Mae opsiynau dewisiadau 2006 -2007 pedwar o rwydweithiau yn cynnwys manylion llawn am ddarpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog, gyda 14 arall o'r rhwydweithiau yn rhoi sylw rhannol. Nid oes opsiynau Cymraeg neu ddwyieithog yn newisiadau Pen-y-bont, Mynwy, Casnewydd a Merthyr Tudful. Yn yr awdurdodau hyn, er nad oes ysgolion uwchradd sy'n darparu addysg gyfrwng Cymraeg yn yr awdurdodau hyn, nid oes ystyriaeth ddigonol wedi ei rhoi i gynnig darpariaeth i'r dysgwyr a fydd yn dychwelyd i'r awdurdod ac yn dymuno parhau i dderbyn darpariaeth gyfrwng Cymraeg ar ôl gadael yr ysgol a mynychu coleg neu ddarparwr hyfforddiant lleol.

62 Disgwyliad Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd bod cynlluniau datblygu'r rhwydweithiau lleol ar gyfer 2007-2008 yn dyrannu o leiaf 10% y cant o'u cyllid i ehangu ar y ddarpariaeth Gymraeg. Roedd llawer o gynlluniau yn brin o'r disgwyliad hwn. Mewn rhai achosion, nid yw darparwyr unigol yn y sector Cymraeg yn ymwybodol o'r disgwyliad hwn ac ni wyddant pa gyfran o gyllid y rhwydwaith sy'n cael ei wario ar ddarpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog. Rhyw draean o'r rhwydweithiau yn unig sydd oedd wedi manteisio ar y cyfle i wneud cais am y cyllid ychwanegol oedd ar gael ar gyfer cyrsiau galwedigaethol dwyieithog yn 2007-2008. Yn gyffredinol, cyfyng fu dylanwad y rhwydweithiau o ran cynyddu ystod y ddarpariaeth Gymraeg yn y sectorau addysg bellach a hyfforddiant. Mae llawer o'r hyn sydd wedi ei gyflawni o ganlyniad i weledigaeth a dyheadau darparwyr unigol.

63 Dim ond nifer bach o rwydweithiau sydd wedi gwneud awdit o'r cyfleodd i astudio drwy'r Gymraeg er mwyn adnabod lle mae bylchau. Yn y rhan fwyaf o achosion, ychydig fu'r cynnydd yn rhesymoli'r ddarpariaeth gyfrwng Gymraeg er mwyn osgoi dyblygu a sicrhau gwell effeithlonrwydd o ran maint dosbarthiadau. Yn gyffredinol, nid oes digon o gynllunio strategaethol o ran mapio, adnabod anghenion a phennu nodau a thargedau. Mae cynllun datblygu 14-19 Sir Gaerfyrddin yn enghraifft o arfer dda yn y cyswllt hwn. Mae'n cynnwys awdit o ddarpariaeth bresennol a bylchau, ac yn ymrwymo i gynyddu darpariaeth alwedigaethol o 15% yn flynyddol, ynghyd â chynnydd o 15% erbyn 2010 yn y niferoedd dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau dwyieithog.

## Y cynllun sabothol[14]

64 Mae prinder athrawon sy'n medru addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o'r prif rwystrau i gynnig mwy o gyrsiau Cymraeg neu ddwyieithog. Er enghraifft, yn 2004-2005 dim ond 5% o staff addysg bellach oedd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cyhoeddiad *'Ysgolion yng Nghymru ystadegau Cyffredinol 2005-2006'* yn nodi bod tua 12% o athrawon uwchradd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodir hefyd bod cynifer â 440 o athrawon uwchradd (cyfwerth ag amser llawn) sy'n gymwys i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond heb fod yn gwneud hynny. Ymhellach, mae adroddiad *LE Wales*[15] ar gynllunio ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon cyfrwng Cymraeg yn nodi nad yw pob hyfforddai sy'n dilyn y cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon drwy gyfrwng y Gymraeg yn mynd ymlaen i addysgu yn y sector addysg Gymraeg.

65 Hyd yn hyn, mae 99 o athrawon a darlithwyr wedi cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, naill ai ym Mangor neu Gaerdydd. Mae hyn yn cynnwys 66 o athrawon cynradd ac uwchradd, 32 darlithydd addysg bellach, ac un darlithydd hyfforddiant yn y gwaith. Bu'r nifer ymrestriadau ar gyfer cwrs Bangor yn llawr is na'r disgwyl, felly hefyd yr ymateb o du darparwyr addysg bellach. Bu raid rhoi'r gorau i'r bwriad i sefydlu trydedd ganolfan, mewn lleoliad yng nghanolbarth Cymru, oherwydd toriadau yn y gyllideb ar gyfer 2008-2009.

66 Mae'r cyfle i ddilyn y cwrs drwy ddysgu o bell wedi sicrhau mwy o hyblygrwydd i helpu darparwyr i ryddhau staff. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth hon yn canolbwyntio ar wella medrau ysgrifenedig yn y Gymraeg ac mae'n ddibynnol ar lefel uchel o ran cymhwysedd lafar. Mewn rhai colegau, mae llawer o staff yn dysgu Cymraeg ar gyrsiau'r colegau eu hunain. Nid yw'r cynllun sabothol yn addas ar gyfer nifer o'r dysgwyr Cymraeg hyn oherwydd y lefel uchel o ran disgwyliadau ieithyddol.

67 Mae cynhaliaeth ddilynol ar gyfer staff a fu'n rhan o'r cynllun yn helpu i gynnal a gwella ymhellach ar eu cymhwysedd yn y Gymraeg. Mae'r astudiaeth achos ddilynol yn disgrifio'r rhaglen gynhwysfawr o gynhaliaeth y mae un coleg addysg bellach yn ei darparu i helpu staff i wella ar eu cymhwysedd yn y Gymraeg ac addysgu'n ddwyieithog:

---

[14] Rhaglen wedi ei hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw'r 'cynllun sabothol' ar gyfer cynyddu nifer yr athrawon a darlithwyr sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cynigir y cynllun yn rhad ac am ddim ac ad-delir costau cyflenwi a theithio. Cynhaliwyd y cwrs cyntaf yng ngwanwyn 2006. Mae'r cynllun bellach wedi eu ehangu hyd at 2009.

[15] *'Adolygiad o'r materion ystadegol sy'n sail i gynllunio'r nifer a dderbynnir i hyfforddiant cychwynnol athrawon cyfrwng Cymraeg' (Mawrth 2007)*

**Cyd-destun**

Mae Coleg Menai yn goleg addysg bellach sy'n gwasanaethu dysgwyr ym Môn ac ardal Arfon yng Ngwynedd. Mae nifer o staff y coleg wedi bod yn rhan o'r cynllun sabothol.

**Strategaeth**

Mae gan y coleg strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu medrau staff yn y Gymraeg. Buddsoddwyd llawer o ymdrech ac adnoddau ar gyfer cynyddu'r addysgu dwyieithog a chynhyrchu adnoddau dwyieithog. Mae gan y coleg gynllun datblygu dwyieithrwydd ar gyfer y cyfnod 2005-08, sy'n pennu targedau meintiol mewn perthynas ag addysgu dwyieithog ar lefel cyrsiau unigol. Mae cynnydd yn erbyn y targedau hyn yn cael ei fonitro yn flynyddol.

**Gweithredu**

Trefnir hyfforddiant i staff ar faterion yn ymwneud â dwyieithrwydd fesul cyfadran. Mae hyn yn cynnwys arweiniad ar dechnegau addysgu dwyieithog a sut i roi adborth yn Gymraeg i fyfyrwyr wrth farcio aseiniadau. Mae gan y coleg weithdy paratoi a rhannu adnoddau a rhoddir gwobrau yn flynyddol i fyfyrwyr am gyflawniadau mewn dwyieithrwydd.

Mae gan y coleg drefniadau i gynnig cynhaliaeth i staff i wella eu medrau siarad yn Gymraeg, sy'n cynnwys paru darlithwyr a chynnal clwb sgwrsio staff ar safleoedd Bangor a Llangefni er mwyn cynyddu eu hyder yn siarad Cymraeg.

Mae un eitem ymhob cyfarfod rheolwyr drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Fel paratoad ar gyfer hyn, mae staff y mae angen cymorth arnynt yn derbyn rhestr o eirfa allweddol o flaen llaw drwy e-bost ac yn dod at ei gilydd o flaen llaw i baratoi ar gyfer trafod yr eitem yn Gymraeg.

**Deilliannau**

Mae Coleg Menai wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ehangu'r cyfleoedd i ddysgwyr ddilyn cyrsiau yn Gymraeg drwy ddarparu cyrsiau yn ddwyieithog. Cynyddodd y gyfran o staff sy'n siarad Cymraeg dros y blynyddoedd diwethaf i 75%. Mae defnydd cynyddol o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd timau rheoli.

## Hyrwyddwyr dwyieithrwydd mewn colegau addysg bellach

68 Mae gan nifer cynyddol o golegau addysg bellach nawr gydgysylltwyr ar gyfer datblygu agweddau ar ddarpariaeth ddwyieithog. Mae tri choleg addysg bellach, sef colegau Sir Gâr, Llysfasi a Llandrillo, yn rhan o gynllun peilot ‘hyrwyddwyr dwyieithrwydd sydd wedi ei ariannu o fis Mawrth 2006 hyd at fis Awst 2008 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae’r cynllun yn awr wedi ei ymestyn i Awst 2009. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod targedau penodol ar gyfer y sefydliadau sy’n rhan o’r cynllun, sy’n cynnwys targed meintiol i gynyddu nifer y dysgwyr sy’n dilyn eu cwrs drwy’r Gymraeg. Mae gofyn i’r darparwyr adrodd bob deufis i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gynnydd a llunio adroddiad blynyddol crynodol ar sail cynnydd yn erbyn y targedau.

69 Mae’r hyrwyddwyr dwyieithrwydd yn gweithio'n llwyddiannus i ddatblygu strategaeth i ymateb i ofynion y project. Ymhlith y gweithgarwch y mae:

- cynnal awdit o fedrau dwyieithog darlithwyr;
- darparu sesiynau hyfforddiant i staff;
- cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth am faterion yn ymwneud â’r Gymraeg; a
- hyrwyddo’r Cwricwlwm Cymreig.

70 Mae gweithgareddau fel y rhain yn fan cychwyn da i ehangu ar y ddarpariaeth Gymraeg.

## Addysgu dwyieithog

71 Mae nifer cynyddol o ddarparwyr yn cyflwyno addysgu dwyieithog fel modd o ehangu ar yr hyn y maent yn medru ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn eu galluogi i sicrhau dosbarthiadau o faint hyfyw, gan y bydd mwy o ddysgwyr mewn dosbarth dwyieithog na lle mai'r Gymraeg yw'r unig gyfrwng. Mae'r dull hwn o ddarparu hefyd yn fanteisiol o ran helpu dysgwyr sy'n dilyn y cwrs y yn ddwyieithog i ymgyfarwyddo â thermau arbenigol a phynciol yn y ddwy iaith.

72 Mae addysgu'n ddwyieithog yn effeithiol yn gryn her i athrawon a darlithwyr. Y mae hyn gan fod gallu ieithyddol dysgwyr yn medru amrywio'n fawr, gyda galw felly am lawer o hyblygrwydd ac arbenigedd yn y ddwy iaith. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn cynllunio a pharatoi'n effeithiol er mwyn darparu cyfleoedd llawn i ddysgwyr gymryd rhan mewn ystod lawn o weithgareddau dysgu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

73 Fodd bynnag, mae ansawdd addysgu dwyieithog yn amrywio'n fawr. Lle nad yw addysgu dwyieithog yn effeithiol, nid yw'r cynllunio a threfniadaeth ddosbarth yn aml yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion dysgwyr cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Yn yr achosion hyn, gall cyflwyniad dwyieithog gan yr athro gael ei ddilyn gan ddysgwyr yn cyfrannu'n bennaf yn Saesneg mewn trafodaeth ddosbarth ac yn enwedig mewn grwpiau bach. O ganlyniad, mae diffyg dilyniant o ran cyfrwng y dysgu a gall hyn gael effaith andwyol ar allu dysgwyr i wella eu gafael ar ystod o fedrau yn y Gymraeg.

74 Mae cyflwyno darpariaeth ddwyieithog yn gam pwysig ymlaen mewn achosion lle nad oes darpariaeth gyfrwng Cymraeg, yn enwedig lle mae niferoedd y dysgwyr sy'n dymuno dilyn cwrs yn Gymraeg yn fach. Wedi dweud hynny, ni ddylai hyn fod ar draul ehangu'r niferoedd dosbarthiadau lle mae'r Gymraeg yw unig gyfrwng yr addysgu.

## Atodiad:  Enwau darparwyr yr ymwelwyd â hwy

1 Ysgol Gwynllyw
2 Ysgol Cwm Rhymni
3 Ysgol Rhydywaun
4 Ysgol Bro Myrddin
5 Ysgol Syr Thomas Jones
6 Ysgol Syr Hugh Owen
7 Ysgol Dyffryn Nantlle
8 Ysgol Uwchradd Aberaeron
9 Ysgol Uwchradd Llanbedr Pont Steffan
10 Ysgol Uwchradd Aberhonddu
11 Ysgol Dyffryn Conwy
12 Coleg Menai
13 Coleg Sir Gâr
14 Coleg Ceredigion
15 Coleg Llysfasi
16 Hyfforddiant Gwynedd
17 North Wales Training